Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

## Ysgol Gymunedol Porth
## Heol y Fynwent
## Porth
## Rhondda Cynon Taf
## CF39 0BS

## Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2019

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gymunedol Porth

Mae Ysgol Gymunedol Porth yn ysgol cyfrwng Saesneg pob oed (3-16) yn mhentref Porth, Rhondda. Agorwyd yr ysgol ym mis Medi 2018 ar ôl cau Ysgol Gymunedol Sirol Porth, Ysgol Fabanod Porth, Ysgol Iau Porth ac Ysgol Fabanod Llwyncelyn. Mae 941 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 257 o ddisgyblion yn y sector cynradd, a 684 o ddisgyblion yn y sector uwchradd. Yn y sector ôl-16, mae'r ysgol yn gweithio gyda thair ysgol arall a cholegau addysg bellach fel rhan o Bartneriaeth Rhondda Uchaf.

Mae cyfanswm o ryw 23.4% o ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim. Mae hyn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 18% ar gyfer ysgolion pob oed yng Nghymru. Mae tua 37.5% o ddisgyblion yn byw yn y 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae gan ychydig dros 32% o ddisgyblion angen addysgol arbennig, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 21%. Mae gan ryw 3.3% o ddisgyblion ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig, o gymharu â 2.3% ar gyfer Cymru gyfan.

Penodwyd y pennaeth yn ddarpar bennaeth ym mis Ionawr 2017 a dechreuodd yn ei rôl pan agorwyd yr ysgol ym mis Medi 2018. Mae'r tîm arweinyddiaeth yn cynnwys y pennaeth, dirprwy bennaeth, cyfarwyddwr cyllid ac ystadau, pedwar cyfarwyddwr dysgu a thri phennaeth ysgol.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae Ysgol Gymunedol Porth yn darparu ethos gofalgar, cynhwysol a chefnogol ar gyfer disgyblion. Mae arweinwyr wedi canolbwyntio'n effeithiol ar wella ymddygiad fel sylfaen ar gyfer codi safonau, ac wedi rhannu'r flaenoriaeth hon yn llwyddiannus ar draws yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion o oedran cynradd a llawer o ddisgyblion o oedran uwchradd yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu ac yn ymddwyn yn dda mewn gwersi. Mae llawer o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda y tu allan i wersi hefyd, ac yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'i gilydd. Fodd bynnag, mae cyfraddau presenoldeb isel yn cael effaith negyddol ar gynnydd a safonau disgyblion ar draws yr ysgol.

At ei gilydd, mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn o ran caffael gwybodaeth newydd, a datblygu dealltwriaeth yn ystod gwersi. Fodd bynnag, nid yw mwyafrif y disgyblion yn datblygu eu medrau yn ddigon da, ac maent yn gwneud cynnydd araf mewn gwersi ac erbyn iddynt adael yr ysgol. Mewn llawer o achosion, nid yw disgwyliadau athrawon yn ddigon uchel ac fe gaiff hyn effaith niweidiol ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion a pha mor dda y maent yn datblygu eu medrau.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gref a ffocysedig ac wedi llywio'r ysgol yn fedrus trwy gyfnod o newid sylweddol ac ansefydlogrwydd ers sefydlu'r ysgol newydd ym mis Medi 2018. Bu arweinyddiaeth gadarn a chynllunio gwelliant effeithiol yn llwyddiannus o ran sicrhau gwelliant mewn meysydd arwyddocaol o waith yr ysgol, fel ymddygiad disgyblion, meithrin perthnasoedd cadarnhaol yn yr ysgol a chryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sy'n agored i niwed. Fodd bynnag, ni fu arweinwyr yn ddigon llwyddiannus wrth ysgogi gwelliannau mewn agweddau pwysig fel presenoldeb, safonau a medrau disgyblion, ac ansawdd yr addysgu.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Anfoddhaol ac angen gwelliant brys** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Digonol ac angen gwelliant** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Anfoddhaol ac angen gwelliant brys** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Digonol ac angen gwelliant** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol ac angen gwelliant** |

## Argymhellion

A1 Codi safonau ar draws yr ysgol, gan gynnwys gwella medrau disgyblion

A2 Gwella ansawdd yr addysgu a'r asesu

A3 Cryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau disgyblion yn gynyddol ar draws y cwricwlwm

A4 Gwella presenoldeb disgyblion

A5 Gwella arweinyddiaeth ar bob lefel

## Beth sy'n digwydd nesaf

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEM o'r farn fod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol tua 12 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Anfoddhaol ac angen gwelliant brys**

Mae mwyafrif y disgyblion ar draws sectorau uwchradd a chynradd yr ysgol yn galw gwybodaeth flaenorol i gof yn briodol ac yn cymhwyso'r wybodaeth hon yn addas i gyd-destunau newydd. At ei gilydd, mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn o ran caffael gwybodaeth newydd, a datblygu dealltwriaeth. Fodd bynnag, nid yw mwyafrif y disgyblion yn datblygu eu medrau'n ddigon da a gwnânt gynnydd araf. Yn aml, y rheswm am hyn yw bod athrawon yn strwythuro gwersi'n ormodol ac yn darparu gormod o gymorth ar gyfer disgyblion.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwrando'n barchus ar eu hathrawon a'u cyfoedion yn ystod gwersi, ac mae mwyafrif ohonynt yn ymateb yn briodol pan ofynnir cwestiynau iddynt. Mae'r disgyblion hyn yn cyfrannu'n synhwyrol at drafodaethau dosbarth gan wneud cysylltiadau gwerthfawr â dysgu blaenorol; er enghraifft, mae disgyblion ym Mlynyddoedd 5 a 6 yn esbonio perthnasedd rhif pH danadl poethion a dail tafol. Mae ychydig o ddisgyblion yn mynegi eu barn yn dda. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 3 yn mynegi eu safbwyntiau'n effeithiol ar gemau cyfrifiadur ar sut i aros yn ddiogel ar-lein. Caiff mwyafrif y disgyblion ar draws yr ysgol anhawster yn esbonio eu syniadau. Nid ydynt yn cynnig atebion estynedig ac nid oes ganddynt amrywiaeth ddigon eang o iaith, gan gynnwys geirfa sy'n benodol i bwnc, i fynegi syniadau cymhleth neu ddatblygu atebion a dadleuon yn fanwl. O roi cyfle iddynt, mae ychydig o ddisgyblion yn datblygu medrau siarad cryf; er enghraifft, mae disgyblion yn y sector uwchradd yn dod yn gynyddol hyderus yn siarad Sbaeneg ac yn mwynhau gwneud hynny.

Mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu medrau darllen sylfaenol cadarn. Mae'r disgyblion hyn yn dod o hyd i wybodaeth o ystod o ffynonellau yn hyderus. Er enghraifft, mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn defnyddio mynegai a thudalennau cynnwys yn effeithiol i ddod o hyd i wybodaeth yn gyflym am gacwn a gwenyn. Mae llawer o ddisgyblion yn cymharu gwybodaeth o wahanol ffynonellau yn llwyddiannus, ac mae lleiafrif o ddisgyblion yn y sector uwchradd yn defnyddio terminoleg dechnegol yn gywir, er enghraifft wrth ddadansoddi agweddau ar arddull ysgrifennu ym marddoniaeth y Rhyfel Byd Cyntaf. Fodd bynnag, nid yw mwyafrif y disgyblion wedi datblygu medrau darllen uwch yn ddigonol, ac maent yn ei chael yn anodd cyfuno a chyfosod gwybodaeth o wahanol ffynonellau yn annibynnol, a chael hyd i ystyr ymhlyg mewn testunau.

Mae lleiafrif o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn ysgrifennu'n rhesymegol ac yn trefnu eu gwaith yn briodol. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn strwythuro eu hysgrifennu'n effeithiol i esbonio neu gysylltu syniadau. Ac eithrio mewn gwersi Saesneg, ni chaiff disgyblion yn yr ysgol gyfle i ysgrifennu'n estynedig yn ddigon aml. Yn gyffredinol, mae mwyafrif y disgyblion yn llunio darnau byr ac annatblygedig o ysgrifennu. Mae hyn yn bennaf o ganlyniad i orddibyniaeth ar daflenni gwaith a thasgau nad ydynt yn rhoi digon o her. Mae gan fwyafrif y disgyblion eirfa sylfaenol gadarn. Fodd bynnag, mae gan leiafrif ohonynt eirfa gyfyngedig ac nid ydynt yn defnyddio mathau amrywiol o frawddegau. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud camgymeriadau sillafu, gramadeg ac atalnodi sylfaenol.

Mae gan fwyafrif y disgyblion fedrau rhif addas a defnyddiant y rhain i wneud cyfrifiadau syml. Fodd bynnag, nid yw llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn effeithiol wrth iddynt symud trwy'r ysgol. O ganlyniad, cânt anhawster wrth geisio cymhwyso'r medrau hyn i wneud cyfrifiadau mwy cymhleth.

Mae llawer o ddisgyblion yn y sector cynradd yn datblygu ystod gyfyngedig o fedrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) erbyn diwedd cyfnod allweddol 2. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ym Mlwyddyn 3 yn defnyddio cyfrifiaduron llechen yn briodol i chwilio am wybodaeth oddi ar y rhyngrwyd. Fodd bynnag, nid yw medrau mwyafrif y disgyblion yng nghyfnod allweddol 3 yn adeiladu'n ddigon da ar y sylfaen hon. At ei gilydd, nid yw medrau TGCh disgyblion ar draws yr ysgol wedi'u datblygu'n ddigonol.

O roi cyfleoedd iddynt, mae disgyblion yn yr ysgol yn ymateb yn frwdfrydig i ddangos medrau creadigol; er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 8 yn cyfansoddi ac yn perfformio darn o gerddoriaeth ar gyfer rhigwm hysbyseb yn fedrus.

Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn dechrau cymhwyso eu medrau meddwl pan roddir cyfle iddynt wneud hynny. Er enghraifft, mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn ystyried cwestiynau'n dda cyn ymateb i 'gwestiwn mawr' mewn gwyddoniaeth ynghylch manteision rheoli gwastraff tirlenwi dros gompostio.

Mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn dangos medrau corfforol effeithiol mewn ystod o gyd-destunau. Er enghraifft, mae llawer o ddisgyblion yn y meithrin yn datblygu eu medrau echddygol manwl yn effeithiol wrth greu draenog clai. Mae bron pob un o ddisgyblion Blwyddyn 8 yn datblygu eu medrau pêl-droed yn effeithiol yn ystod gwers Addysg Gorfforol, ac mae llawer ohonynt yn datblygu'r medrau hyn yn effeithiol yn ystod sefyllfa gêm.

Yn 2019, mae perfformiad disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 yn cymharu'n wael â pherfformiad disgyblion mewn ysgolion tebyg. At ei gilydd, mae disgyblion yn gwneud llai o gynnydd na'r disgwyl bron ym mhob dangosydd. Mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn cyd-fynd â pherfformiad y grŵp hwn o ddisgyblion mewn ysgolion tebyg. Caiff pob un o'r disgyblion eu cofrestru ar gyfer y dystysgrif Her Sgiliau. Fodd bynnag, mae perfformiad yr ysgol islaw perfformiad ysgolion tebyg. At ei gilydd, nid yw disgyblion yn gwneud cynnydd mewn Cymraeg sy'n cyd-fynd â'u hoedran a'u gallu. Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau addysg bellach, cyflogaeth neu hyfforddiant ar ddiwedd Blwyddyn 11.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Digonol ac angen gwelliant**

Mae mwyafrif y disgyblion yn hapus a brwdfrydig ynglŷn â dod i'r ysgol. Mae perthnasoedd cadarnhaol rhwng staff a disgyblion yn gryfder arbennig. Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel ac maent yn hyderus fod staff yn delio'n effeithiol ag unrhyw achosion o wrthdaro.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion o oedran cynradd a llawer o ddisgyblion o oedran uwchradd yn ymddwyn yn dda mewn gwersi, ac yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu. Mae llawer o ddisgyblion yn ymdawelu'n gyflym mewn gwersi ond mae ychydig ohonynt yn araf yn gwneud hynny ac yn tarfu ar eu dysgu eu hunain a dysgu disgyblion eraill. Mae gan lawer o ddisgyblion ddiddordeb yn eu dysgu, ac yn

gweithio'n ddiwyd yn ystod gwersi. Mae'r disgyblion hyn yn gwrando ar ei gilydd yn dda ac yn parchu cyfraniadau disgyblion eraill.

Mae llawer o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda y tu allan i wersi ac yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'i gilydd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn trin ei gilydd mewn modd gofalgar, parchus a chefnogol. Maent yn foesgar a chwrtais â'i gilydd ac oedolion. Ar draws yr ysgol, mae ymddygiad disgyblion wedi gwella'n sylweddol ers i'r ysgol agor.

Mewn gwersi, mae llawer o ddisgyblion yn gwrando'n dda ar ei gilydd ac yn parchu cyfraniadau disgyblion eraill. Dangosant ddiddordeb yn eu dysgu. Mae'r disgyblion hyn yn gweithio'n dda gyda disgyblion eraill mewn grwpiau bach ac mewn lleoliadau dosbarth cyfan. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymdawelu'n gyflym mewn gwersi ond mae ychydig ohonynt yn araf yn gwneud hyn, ac mae hyn yn gohirio'r amser dysgu ar gyfer y dosbarth cyfan. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn ei chael yn anodd dal ati i ganolbwyntio, a ffocysu ar dasg benodol am gyfnod estynedig. Nid yw mwyafrif o ddisgyblion yn dangos y medrau i wella eu dysgu eu hunain, datrys problemau a datblygu eu meddwl.

Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn dechrau datblygu eu medrau arwain trwy'r Senedd a'r clwb Eco. Er mai megis dechrau datblygu y mae'r rhain, maent yn dechrau effeithio ar fywyd ysgol. Er enghraifft, maent wedi gwneud awgrymiadau sydd wedi arwain at newidiadau o ran trefn amser cinio yn ffreutur y sector uwchradd. Fodd bynnag, at ei gilydd, caiff grwpiau arwain disgyblion ddylanwad cyfyngedig ar bolisi ysgol neu addysgu a dysgu, ac nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn teimlo o hyd fod yr ysgol yn gwrando'n ddigon da ar eu safbwyntiau.

Mae disgyblion yn dechrau cymryd rhan mewn prosiectau elusennol a chymunedol gwerthfawr; er enghraifft, maent wedi casglu bwyd ar gyfer y banc bwyd lleol ac wedi gwerthu cywion wedi'u gwau i gynorthwyo Ysbyty Felindre.

Mae cyfraddau presenoldeb disgyblion yn isel ar draws yr ysgol gyfan ac wedi dirywio'n sylweddol dros gyfnod, er gwaethaf nifer o ymyriadau. Mae nifer y disgyblion sy'n absennol yn barhaus yn uchel iawn. Mae'r cyfraddau presenoldeb isel yn cael effaith negyddol ar gynnydd a safonau disgyblion ar draws yr ysgol.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Anfoddhaol ac angen gwelliant brys**

Mae llawer o athrawon yn meithrin perthnasoedd gwaith cadarnhaol gyda disgyblion ac mae ganddynt wybodaeth bynciol addas. Maent yn rheoli ymddygiad yn dda ac yn gwneud defnydd effeithiol o gynorthwywyr addysgu i gefnogi dysgu'r disgyblion.

Mae lleiafrif o athrawon yn creu amgylchedd dysgu difyr a chynhyrchiol. Maent yn cynllunio'n ofalus, gan ystyried dysgu blaenorol disgyblion a'u potensial i gyflawni. Mae'r athrawon hyn yn paratoi adnoddau defnyddiol a gweithgareddau diddorol sy'n cynorthwyo disgyblion i wneud cynnydd cadarn yn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth.

Yn yr achosion prin iawn lle mae'r addysgu yn fwyaf effeithiol, mae athrawon yn darparu ar gyfer gwahanol anghenion yr holl ddisgyblion yn arbennig o dda. Mae'r athrawon hyn yn cynllunio gweithgareddau heriol sy'n ymestyn disgyblion i gyflawni eu potensial. Maent yn addasu eu haddysgu yn fedrus i ymateb i gynnydd

disgyblion. Mae'r athrawon hyn yn cynorthwyo disgyblion yn dda i ddatblygu eu gwybodaeth a chymhwyso eu medrau. Yn yr achosion hyn, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cryf.

Yn y cyfnod sylfaen, mae lleiafrif o athrawon yn sicrhau cydbwysedd addas rhwng gweithgareddau dan arweiniad oedolion a gweithgareddau chwarae rhydd. Fodd bynnag, nid ydynt yn rhoi digon o gyfleoedd i'r disgyblion wella eu dysgu trwy ddarpariaeth estynedig a pharhaus, fel defnyddio'r awyr agored yn effeithiol.

Mewn llawer o achosion, mae disgwyliadau athrawon o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni yn rhy isel. Nid ydynt yn darparu graddau addas o her i ddisgyblion ac nid ydynt yn ymyrryd yn effeithiol pan fydd disgyblion yn ymddieithrio. Nid yw'r athrawon hyn yn cynllunio'n ddigon manwl nac uchelgeisiol i ddiwallu anghenion a datblygu medrau'r holl unigolion. Er enghraifft, maent yn cynllunio amrywiaeth o weithgareddau a thasgau sy'n cadw disgyblion yn brysur ond nid ydynt yn eu cynorthwyo'n ddigon da i wneud cynnydd. Maent yn gor-strwythuro ac yn gor-gyfarwyddo gwaith, gan roi gormod o gymorth i ddisgyblion. O ganlyniad, mae cyflymdra'r dysgu yn rhy araf ac nid yw disgyblion yn datblygu'n ddigon da fel dysgwyr annibynnol a gwydn sy'n gallu cymhwyso eu medrau mewn gwahanol gyd-destunau. Mae hyn yn cyfyngu ar y cynnydd a wnânt.

Mae mwyafrif o athrawon yn defnyddio holi yn addas i wirio gwybodaeth disgyblion. Fodd bynnag, ychydig ohonynt yn unig sy'n defnyddio holi yn effeithiol i herio meddwl disgyblion a dyfnhau eu dealltwriaeth. Mae lleiafrif o athrawon yn monitro cynnydd disgyblion yn ofalus, yn mynd i'r afael â chamdybiaethau yn brydlon ac yn darparu adborth defnyddiol sy'n nodi'n glir sut gall disgyblion wella eu gwaith. Fodd bynnag, nid yw adborth mwyafrif yr athrawon yn helpu disgyblion i wella eu gwybodaeth na'u medrau yn ddigon da. Nid yw llawer o athrawon yn monitro'n ddigon agos pa mor dda y mae disgyblion wedi gwella eu gwaith i ymateb i'r adborth.

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm addas, ar y cyfan, sy'n diwallu anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion. Mae ystod briodol o lwybrau dysgu ar gyfer y rhan fwyaf o ddisgyblion wrth iddynt symud i gyfnod allweddol 4, gyda dewis cynyddol o gyrsiau academaidd a galwedigaethol. Fodd bynnag, yn y sector cynradd, nid yw'r ysgol yn cynnig ystod ddigon eang o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu pob agwedd ar eu medrau mathemateg.

Mae'r ysgol yn dechrau datblygu cwricwlwm i sicrhau parhad mewn profiadau dysgu ar draws y sectorau cynradd ac uwchradd. Er enghraifft, mae disgyblion yn y sector cynradd yn ymweld â'r sector uwchradd yn rheolaidd i ddatblygu eu medrau drama a cherddoriaeth. Megis dechrau datblygu y mae'r gwaith hwn yn yr ysgol a gydag ysgolion cynradd partner. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd priodol i ehangu gorwelion dysgwyr mwy abl; er enghraifft, fe wnaeth y prosiect taith ddarganfod gynorthwyo'r disgyblion hyn i ystyried arbrofion gwyddonol yn ymwneud â'r orsaf ofod ryngwladol.

Mae'r ysgol yn cynnig ystod briodol o weithgareddau allgyrsiol a gweithgareddau ar ôl yr ysgol, sy'n cefnogi datblygiad cymdeithasol disgyblion yn briodol. Er enghraifft, fe wnaeth disgyblion o bob grŵp oedran gymryd rhan yn frwdfrydig mewn cynhyrchiad diweddar o 'The Wizard of Oz'. Mae'r sector cynradd yn gwneud defnydd priodol o ymweliadau cyfoethogi i ennyn diddordeb disgyblion yn eu dysgu.

Er enghraifft, fe wnaeth taith ddiweddar Blwyddyn 3 a 4 i gael profiad o fyw yn y gwyllt gynyddu brwdfrydedd disgyblion i astudio'r testun 'coedwig wyllt'.

Mae'r sector uwchradd yn gwneud defnydd gwerth chweil o bartneriaethau â busnesau a cholegau lleol i godi dyheadau disgyblion ar gyfer cyflogaeth neu astudio yn y dyfodol.  Er enghraifft, mae'r 'diwrnodau rhoi cynnig arni' yn y coleg lleol wedi cynorthwyo dysgwyr sy'n agored i niwed i wneud cais ar gyfer cyrsiau priodol.

Nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh disgyblion ar draws yr ysgol wedi'i datblygu'n ddigonol.  Mae'r ysgol yn dechrau mapio datblygiad medrau ar draws y cwricwlwm.  Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn cynllunio ar gyfer datblygiad cynyddol medrau disgyblion yn ddigon da.  Mae staff yn cynnig cymorth addas i ddisgyblion â medrau llythrennedd gwan.  Mae cymorth ar gyfer disgyblion â medrau rhifedd gwan yn dechrau datblygu.  Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn gwerthuso effaith yr ymyriadau hyn yn ddigon da.

Megis dechrau datblygu y mae'r cynllunio i ddatblygu medrau Cymraeg disgyblion.  Yn y sector cynradd, mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd addas i ymestyn defnydd disgyblion o'r Gymraeg trwy weithgareddau allgyrsiol, fel teithiau i Langrannog.  Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw'r ysgol yn cynllunio'n ddigon pwrpasol i ddatblygu ethos Cymraeg neu fedrau Cymraeg disgyblion.

## Gofal, cymorth ac arweiniad:  Digonol ac angen gwelliant

Mae Ysgol Gymunedol Porth yn darparu ethos gofalgar, cynhwysol a chefnogol ar gyfer disgyblion.  Mae arweinwyr wedi canolbwyntio'n effeithiol ar wella ymddygiad fel sylfaen ar gyfer codi safonau, ac wedi rhannu'r flaenoriaeth hon yn llwyddiannus ar draws yr ysgol.  Mae gweithdrefnau i wella a monitro ymddygiad yn gryf ac wedi arwain at welliannau sylweddol yn ymddygiad disgyblion.

Mae'r cymorth a roddir i ddisgyblion sy'n agored i niwed yn gryfder yn yr ysgol ac, yn benodol, y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion emosiynol a chymdeithasol.  Mae'r ysgol yn cynnig amrywiaeth o raglenni gwerthfawr ar gyfer y disgyblion hyn, sy'n cael effaith gadarnhaol ar wella eu hyder, er enghraifft gyda disgyblion sy'n dilyn amserlenni wedi'u haddasu a phersonoledig yn dychwelyd i addysg prif ffrwd.

Mae'r ysgol yn diwallu anghenion disgyblion â phroblemau ymddygiadol sylweddol yn dda trwy'r ddarpariaeth amgen yng nghanolfan 'Gate'.  Yma, mae staff yn llwyddo i ddatblygu perthnasoedd cadarnhaol, ymddiriedus gyda'r disgyblion.  O ganlyniad, mae'r disgyblion hyn sy'n agored i niwed yn ymgysylltu â'u dysgu ac yn rhyngweithio'n dda â'u cyfoedion.

Ni fu gwaith diweddar yr ysgol i wella presenoldeb yn effeithiol.  Mae cyfraddau presenoldeb yn yr ysgol yn cymharu'n wael â chyfraddau presenoldeb mewn ysgolion tebyg, ac mae nifer yr absenoldebau parhaus yn uchel iawn.

Mae trefniadau i gefnogi'r cyfnod pontio rhwng sectorau cynradd ac uwchradd yr ysgol yn dechrau effeithio'n gadarnhaol ar hyder disgyblion wrth iddynt symud i'r cam nesaf yn eu haddysg.  Fodd bynnag, nid yw trefniadau pontio ar gyfer disgyblion o ysgolion cynradd partner eraill wedi eu datblygu cystal.

Mae'r ysgol yn nodi disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn brydlon ac yn effeithiol. Mae darpariaeth ar gyfer y disgyblion hyn wedi'i threfnu'n dda, ac maent yn gwneud cynnydd da yn unol â'u targedau unigol. Mae cynlluniau addysg unigol disgyblion yn bwrpasol, ac yn y mwyafrif o achosion, yn cynnwys targedau perthnasol. At ei gilydd, mae'r cynlluniau hyn yn cynnwys strategaethau synhwyrol i hyrwyddo dysgu disgyblion. Fodd bynnag, lleiafrif o athrawon yn unig sy'n defnyddio'r wybodaeth hon yn briodol yn eu haddysgu a'u cynllunio.

Mae gan yr ysgol systemau priodol i gofnodi cyrhaeddiad disgyblion mewn pynciau unigol. Mae arweinwyr yn dechrau defnyddio'r wybodaeth hon yn briodol i fonitro cynnydd disgyblion a nodi'r rhai sydd mewn perygl o dangyflawni. Fodd bynnag, ni fu prosesau ar gyfer asesu, olrhain a monitro cynnydd disgyblion yn ddigon effeithiol o ran cefnogi'r ysgol i wella safonau, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4.

Mae adroddiadau yn y sector cynradd yn darparu gwybodaeth fuddiol i rieni am gynnydd eu plentyn. Fodd bynnag, yn y sector uwchradd, mae ansawdd yr adroddiadau ysgrifenedig a'r wybodaeth i rieni yn anghyson. Mae gormod o sylwadau nad ydynt yn canolbwyntio'n ddigonol ar safonau ac nid ydynt yn rhoi cyngor defnyddiol ar sut gellir gwneud cynnydd pellach.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer bwyta ac yfed yn iach, ac o ganlyniad, caiff y disgyblion gyfleoedd addas i ddatblygu dealltwriaeth o bwysigrwydd dewisiadau iach o ran bwyta a ffordd o fyw.

Mae gan yr ysgol drefniadau addas ar gyfer datblygiad moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion. Mae amser cylch, cyfnodau tiwtor a gwersi yn helpu disgyblion i drafod agweddau pwysig fel goddefgarwch a pharchu amrywiaeth. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd buddiol o bartneriaethau cryf ag ystod o asiantaethau fel yr heddlu, sefydliadau iechyd a sefydliadau elusennol i wella profiadau disgyblion a'u dealltwriaeth o faterion iechyd a chymdeithasol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer clybiau yn ystod y dydd ac ar ôl yr ysgol yn galluogi disgyblion i fwynhau ystod eang o weithgareddau cerddorol, chwaraeon a diwylliannol. Mae hyn yn datblygu eu cryfderau personol ac yn eu helpu i sylweddoli sut i fod yn aelodau gwerthfawr o'r gymuned leol. Mae sioe'r ysgol a digwyddiadau eraill yn helpu'r disgyblion i ddatblygu medrau creadigol a magu hyder mewn perfformiadau cyhoeddus.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd priodol ar gyfer myfyrio dyddiol sy'n hyrwyddo lles ac yn datblygu agweddau ysbrydol ar fywydau disgyblion. Mae'r sesiynau hyn yn helpu disgyblion i ymestyn eu dealltwriaeth ac ystyried eu hymateb i sefyllfaoedd heriol. Mae'r ddarpariaeth i gynorthwyo disgyblion i fod yn ddinasyddion gweithgar yn dechrau datblygu trwy Senedd yr ysgol a'r Clwb Eco.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

### Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol ac angen gwelliant

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gref a ffocysedig. Mae'n fodel rôl pwerus sy'n arwain trwy esiampl ac yn cyfleu disgwyliadau uchel ym mhopeth y mae'n ei

wneud. Mae hi wedi llywio'r ysgol yn fedrus trwy gyfnod o newid sylweddol ac ansefydlogrwydd ers sefydlu ysgol newydd ym mis Medi 2018. Mae ei gweledigaeth glir wedi'i gwreiddio'n gadarn mewn ymrwymiad diffuant i les disgyblion, darparu'r cyfleoedd gorau mewn bywyd i ddisgyblion a sefydlu ysgol sydd wrth wraidd ei chymuned. Caiff y weledigaeth hon ei chyfleu'n effeithiol a'i harddel yn llawn gan staff a llywodraethwyr.

Yn y cyfnod cymharol fyr ers i'r ysgol fodoli, bu arweinwyr yn llwyddiannus wrth feithrin ethos tîm a chreu synnwyr o uchelgais ar y cyd. Un o nodweddion nodedig arweinwyr yw'r ffordd y maent yn myfyrio'n rheolaidd ar eu gwaith ers dechrau'r ysgol. Maent yn onest am gamau gweithredu nad oeddent yn llwyddiannus, ac yn disgrifio'n glir y gwersi a ddysgwyd o'r profiadau hyn. Maent wedi ymateb i'r heriau niferus y maent wedi'u hwynebu gydag ymagwedd hyblyg ac agwedd gadarnhaol.

Mae arweinyddiaeth gadarn a chynllunio gwelliant effeithiol wedi bod yn llwyddiannus o ran sicrhau gwelliant mewn meysydd arwyddocaol o waith yr ysgol, fel ymddygiad disgyblion, meithrin perthnasoedd cadarnhaol a'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sy'n agored i niwed. Fodd bynnag, ni fu arweinwyr yn ddigon llwyddiannus wrth ysgogi gwelliannau mewn agweddau pwysig fel presenoldeb, safonau a medrau disgyblion, ac ansawdd yr addysgu.

Mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth gadarn o'r prif faterion sy'n wynebu'r ysgol, a gwybodaeth fanwl am ei chyd-destun a'i chefndir. Maent yn gefnogol iawn i'r ysgol, ac yn datblygu'n addas fel ffrindiau beirniadol sy'n darparu her briodol.

Mae strwythur arwain sy'n briodol, ar y cyfan. Fodd bynnag, mae gan grŵp cymharol fach o arweinwyr gyfrifoldebau sylweddol. Mae hyn yn cyfyngu ar allu cyffredinol y tîm arweinyddiaeth i sicrhau gwelliant.

Ceir rhaglen addas o gyfarfodydd rheoli llinell sy'n dechrau bod yn effeithiol o ran dwyn staff i gyfrif a chefnogi gwelliannau. Mae'r cyfarfodydd hyn yn canolbwyntio'n briodol ar flaenoriaethau trosfwaol yr ysgol ac yn rhoi sylw i agweddau pwysig fel cynnydd disgyblion. Fodd bynnag, mae gormod o amrywioldeb yn ansawdd ac effaith y cyfarfodydd hyn. Mewn llawer o achosion, mae cofnodion yn canolbwyntio'n ormodol ar faterion gweithredol ac nid ydynt yn cynhyrchu camau gweithredu priodol ar gyfer gwella.

Mae gan y pennaeth ddarlun gonest a chywir o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella. Mae ganddi ddealltwriaeth realistig o'r hyn y mae angen ei wneud i wella ac wedi blaenoriaethu'n briodol. Mae arweinwyr eraill yn datblygu'r ddealltwriaeth hon yn briodol.

Mae pob un o'r arweinwyr yn ymgymryd ag ystod o weithgareddau hunanwerthuso addas. Mae'r rhain yn cynnwys arsylwadau gwersi, craffu ar waith, adolygiadau cymheiriaid a chasglu safbwyntiau disgyblion. Megis dechrau datblygu y mae'r ffordd y maent yn defnyddio ac yn dadansoddi data.

Ar y lefel uchaf o arweinyddiaeth, mae hunanwerthuso yn fforensig ac yn hynod onest. Mae'n broses barhaus lle mae arweinwyr yn myfyrio'n rheolaidd ar effeithiolrwydd y camau gweithredu a'r agweddau ar waith yr ysgol, ac yn nodi blaenoriaethau gwella perthnasol o ganlyniad. Yn yr enghreifftiau gorau, mae hyn yn

arwain at gamau gweithredu manwl ac effaith gadarnhaol.  Fodd bynnag, nid yw'r feistrolaeth sicr hon o brosesau hunanwerthuso yn ymestyn i'r holl arweinwyr.  At ei gilydd, nid yw gafael arweinwyr o hunanwerthuso fel proses barhaus wedi'i datblygu'n ddigonol, ac nid oes ganddynt ddealltwriaeth ddigon cadarn na manwl o ddiffygion mewn meysydd pwysig na sut i fynd i'r afael â nhw.  At ei gilydd, mae effaith cynllunio gwelliant gan arweinwyr yn rhy amrywiol.

Mae arweinwyr yn gwneud defnydd priodol ar y cyfan o weithgareddau hunanwerthuso i gael dealltwriaeth eang o ansawdd yr addysgu a'r dysgu.  Fodd bynnag, nid oes ganddynt ddealltwriaeth ddigon manwl o'r agwedd hon ar waith yr ysgol.  Yn benodol, nid yw arweinwyr yn canolbwyntio'n ddigonol ar ddiffygion penodol ym medrau disgyblion ac nid ydynt yn nodi meysydd i'w gwella yn ddigon da.  O ganlyniad, nid yw cynllunio i wella addysgu a dysgu, yn enwedig datblygiad medrau disgyblion, yn ddigon strategol na manwl.

Mae'r ysgol yn darparu dewislen o gyfleoedd dysgu proffesiynol addas sy'n cynnwys cyrsiau arweinyddiaeth, diwylliant datblygol o hyfforddi a mentora, a chysylltiadau cynyddol ag ysgolion eraill.  Mae gweithgareddau dysgu proffesiynol wedi eu cysylltu'n briodol â blaenoriaethau gwella'r ysgol ac anghenion staff unigol.

Mae system rheoli perfformiad briodol, sy'n cynnwys targedau yn gysylltiedig â blaenoriaethau trosfwaol yr ysgol.  Mae adolygiadau o berfformiad yn drylwyr ac ymdrinnir yn gadarn ag achosion o danberfformio.

Mae'r pennaeth, y rheolwr busnes a'r corff llywodraethol yn monitro cyllideb yr ysgol yn ofalus.  Maent yn rheoli gwariant yn dda, gan weddu'r gwariant yn briodol i flaenoriaethau ac anghenion yr ysgol.  Maent yn ddyfeisgar wrth gaffael cyllid ychwanegol a darpariaeth y mae'r disgyblion yn elwa arni, fel cyllid i gefnogi gweithgareddau awyr agored, cynhyrchiad yr ysgol a sesiynau hyfforddi ar gyfer disgyblion o glwb pêl-rwyd lleol.  Mae arweinwyr yn gwneud defnydd effeithiol o gyllid grant, gan gynnwys y grant datblygu disgyblion.  Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau a lles disgyblion sy'n agored i niwed.  Nid oes gan yr ysgol ddigon o offer TGCh i gefnogi darpariaeth ar gyfer datblygu medrau TGCh disgyblion ar draws yr ysgol gyfan.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o’r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon a’r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i’w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a’i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â’r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle y bo’n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a’r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth, ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â’r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu’r disgyblion (lle y bo’n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle y bo’n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso’r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella’r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau’r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a’r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi’r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau’r arolygiad ochr yn ochr â’r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 30/01/2020